| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Gweithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yn atebol i'r | Cydlynydd Byw yn y Gymuned |
| Lleoliad | Amrywiol |
| Cyfeirnod Swydd / Rhif Adnabod | 0003881 |

**Pwrpas y Swydd**

Darparu ystod hyblyg o gefnogaeth i bobl â phroblemau Iechyd Meddwl fel rhan o'r tîm Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl yn unol ag egwyddorion "adferiad". Mae hyn yn golygu fod hawl gan bobl i greu bywydau ystyrlon ar eu cyfer eu hunain a chael rolau gwerthfawr, beth bynnag fo'u problemau iechyd meddwl. Mae cefnogaeth yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda phobl fel y gallant gynyddu eu hyder, adennill sgiliau a datblygu ansawdd bywyd da sy'n ystyrlon ac yn werth chweil fel y gallant fod yn annibynnol wrth reoli eu cartrefi, wrth gymryd rhan yn eu cymunedau ac wrth gynnal cyflogaeth a gweithgareddau grŵp, neu gyfleoedd gwirfoddoli ac addysgol eraill. Nod y gefnogaeth yw rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol benodol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl (a phroblemau camddefnyddio sylweddau) gyda phwyslais ar "beth sy'n bwysig" iddyn nhw. Gweithio o fewn cynllun cefnogaeth a gytunwyd i hybu hyder ac annibyniaeth o fewn y gymuned.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Bodloni anghenion pob unigolyn drwy weithio gyda nhw i glustnodi a chyflawni amrywiaeth o amcanion personol fel y nodir yng Nghynllun Cefnogaeth yr unigolyn.

2. Parchu cyfrinachedd a hyrwyddo perthnasau proffesiynol llawn ymddiriedaeth gydag unigolion a'u gofalwyr. Wrth wneud hynny, helpu pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau i gymryd rhan yn y broses o gynllunio a datblygu eu cymorth eu hunain.

3. Helpu i leihau'r angen i fynd i'r ysbyty neu lefelau uwch o ofal a hyrwyddo cyfleoedd i adael lleoliadau gofal yn ddiogel drwy gefnogi'r unigolyn i ennill sgiliau a hunanhyder.

4. Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl fudd-ddeiliaid sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, er mwyn cefnogi pobl gyda phroblemau cymhleth drwy gymryd risgiau cadarnhaol. Mae hyn yn cyd-fynd â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol.

5. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl â phroblemau iechyd meddwl i oresgyn problemau mewn perthynas â gwahaniaethu ac allgáu o gymdeithas a herio stigma.

6. Cyflawni hyfforddiant i wneud eu gwaith yn effeithiol yn unol â'r ymagwedd Adferiad.

7. Rhoi gwybod i reolwyr am unrhyw sefyllfaoedd sy'n destun pryder neu'n debygol o beryglu unigolion neu weithwyr eraill neu'r cyhoedd. Darparu cofnodion ysgrifenedig o bob cyswllt yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

8. Gweithio o fewn yr oriau a gontractiwyd bob wythnos rhwng 8.30am a 9.30pm, 7 diwrnod yr wythnos gan gynnwys gwyliau'r banc.

| **Goruchwylio / Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |

**Manylion am yr Unigolyn**

Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'i defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut ydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.

| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
|---|---|---|
| Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol a gweithio tuag at Gymhwyster Gofal Cymdeithasol perthnasol | Hanfodol | Ffurflen Gais/ Cyfweliad |
| QCF Lefel 3 neu gymhwyster Gofal Cymdeithasol arall | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Bod â dealltwriaeth o anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a'r effaith y gall hyn ei gael ar eu bywydau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gwerthfawrogiad o'r angen i weithio i gynllun a phwysigrwydd adolygu cynnydd. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o gefnogi pobl ddiamddiffyn yn y gymuned mewn modd sy'n canolbwyntio ar adferiad. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Gallu gweithio ochr yn ochr â phobl ddiamddiffyn a'u cynorthwyo i fyw bywydau mwy annibynnol a llawn. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Bod ag agwedd anfeirniadol a'r gallu i drin unigolion gydag urddas a pharch. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol gydag amrywiaeth o bobl mewn amrywiaeth o leoliadau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o'r angen i gadw at ganllawiau cyfrinachedd a'r gallu i wneud hynny. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Yn gallu siarad Cymraeg, ac yn dal trwydded yrru lawn. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
|---|---|---|
| **Cwsmer yn Gyntaf:**<br>Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o safon uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth**<br>Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:**<br>Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Arwain a chymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |